# Dynion Morus Isca

Sefydlwyd Dynion Morus Isca ym 1976 gan dri dawnsiwr profiadol, ac rydym ni'n cymryd ein henw o gaer Rufeinig yr ail leng Augustus a safodd unwaith ar safle'r hen dref Caerllion- ar-Wysg yn yr cynsir Gwent yn Ne-dwyrain Cymru, T.U. Rydym yn gwisgo'r lliwiau cenedlaethol Cymru (sef coch, gwyn a gwyrdd) ac mae'r wisg yn cynnwys sas coch lle glynir bathodyn o helm Rhufeinig. Amser maith yn ôl cafodd capiau Trefynwy eu gwau yn y sir fel y rhai gwyrdd y rydym yn eu gwisgo : enghraifftt ydynt o un o'r dillad wedi'u gwau sy'n goroesi'n gynharaf o'r Canol Oesoedd, ac y maent yn gyfleus iawn yn y tywydd oer Cymreig. Y mae ein gwisg yn cynnwys hefyd closau gwyrdd, crysau a hosanau gwyn, gyda chôt rraesog.

Y mae gan ddawnsio morus hanes hir, a meddylir ei fod e'n tarddu ganrifoedd yn ôl fel rhan seremoni gyntefig gredyddol. Tros Brydain yr oedd gan rhan fwyaf o bentrefi fintau ei hun o ddawnswyr morus, gyda dawnsiau a chymeriadau perthynol ei hun, a nid oedd yr ardal hwn ddim yn eithriad. Sut bynnag, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg deuai dawnswyr morus yn beth anghyffredin, a ni goroesai llawer o finteioedd lleol. Yn ffodus nodwyd camau ac alawon yr hen ddawnsiau gan lenorion gwerin Fictorianaidd oddi wrth ddawnswyr hyn, ac mewn blynyddoedd diweddar cafwyd y dawnsio ei adfywio. Yn anffodus trwy chwyldroadau diwydiannol ac ymchwydd y capeli ni goroesai llawer o ddawnsiau Cymreig i gael eu casglu. Y mae'r tîm yn dal ymchwlio hanes ddawnsio lleol, a byddai'n eithgar i ddysgu unrhyw wybodaeth o'r Forus yn Ne Cymru a'r Ffiniau.

Y mae cerddoriaeth y dawnsiau yn defnyddio hen alawon a modern hefyd, a phoblogeiddiwyd rhai ohonynt mewn blynyddoedd diweddar. Yr oedd yr offer tradoddiadol yn ffidl, pib a thabwrdd, ac yn ddiweddarach y concertina a'r accordion. Gyda'u gwisgoedd lliwgar a thradoddiadol y mae'r Dynion Morus Isca yn bywhau'r hanes, gan ychwanegu lliw a naws i nrhyw achlysur.

Y mae'r Dynion Morus Isca wedi dawnsio mewn amrywiaeth mawr o ddigwyddiadau sef dawnsiau twmpath, clybiau gwerin, garddwest a Gwyliau Gwerin, a weithiau maent wedi arddangos ar deledu a radio. Maent hwy wedi teithio'n bell dros Gymru a Lloegr, a chynrychioli Cymru mewn Gwyliau yn Ffrainc, yr Almaen, Guernsey a'r Weriniaeth Tsiecaidd. Derbynant hwy hefyd ddawnswyr o wledydd ewropeaidd eraill.

Y mae ein tymor dawnsio'n estyn yn arferol o Galan Mai (pan ddawnsiwn am y Wawr yn yr amffitheatr Rhufeinig yng Nghaerllion) tan ganol mis Medi, bob nos Fercher mewn tafarnau gyda chwrw go iawn dros Gasnewydd, Torfaen a Sir Fynwy. Gwelir y dawnswyr hefyd am rai penwythnosau. Yn y gaeaf dawnsiwn ni Nos Galangaeaf, Gwyl Steffan a Gwyl yr Ystwyll, ac yn achlysurol yn Noson Gwrw a digwyddiadau eraill tradoddiadol. Y mae'r grwp yn trefnu penwythnos o ddawns ar gyfer teuluoedd bob mis Medi pan wahoddir nifer o dîmau eraill.

Heblaw rhestr dawnsio arferol, y mae'r grwp yn perfformio bob blwyddyn i helpu elusennau plant, sef fel yr *Isca Mummers* maent hwy'n actio mewn *Gwent Mumming Play* . Yn ddiweddar cafodd defod y Fari Lwyd ei hadfywio Nos yr Ystwyll ym mhentref Llanfihangel Tor-y-Mynydd, ble mae'r cyfranogwyr yn dechrau yn nhafarn "Y Seren" a gorymdeithio gyda'u Mari Lwyd i ymweld â rhai o dai lleol a chanu o'u blaen hwy mewn math o gystadleuaeth erbyn trigolion y tai. Disgrifwyd defod y Fari Lwyd fel seremoni geffyl cyngristnogol yn gysylltiol â defodau tebyg

ledled y byd. Y mae Mari Lwyd ei hun yn cynnwys penglog ceffyl ar bolyn cyfrwyd gan len wen, ac addurnwyd yn ôl ardal y perfformiad.

Y mae `r Dynion Morus Isca yn gobeithio eich bod chi'n mwynhau eu perfformiad dawnsio morus tradoddiadol, ac mae ganddyn bleser i glwyed oddi wrthoch gyda sylwadau neu ymholiadau archebu. Yn falch yw'r tîm i fod yn aelod y Cylch Morus, y drefnyddiaeth ganolog ar gyfer grwpiau morus a dawns gleddyf, sydd yn sicrhau goroesiad y gelfyddyd hon hynafol a thradoddiadol. Am wybodaeth ddiweddaraf o'r Dynion Morus Isca ac o swyddogion presennol y tîm. Ymwelwch os gwelwch yn dda a'n gwefan, http://www.Isca-Morrismen.com. Fe ellwch chi hefyd anfon e-bost atom sef: Enquiries@Isca-Morrismen.com



Y mae'r Dynion Morus Isca yn cydnabod yn ddiolchgar cefnogaeth a chymorth oddi wrth dafarn Y Gladiator ym Malpas, ble mae'r tîm yn ymarfer yn ystod y gaeaf. Rydym yn ddiolchgar hefyd am gefnogaeth bob blwyddyn gan dri Arlwywr Cyrfau Cymreig o Ansawdd Uchaf:

Bragdy Cwmbran - Ffon: 01633 485233 Cyrfau Tomos Watkins - Ffon: 01792 560020
Bragdy Warcop - Ffon: 01633 680058



# Dynion Morus Isca